# Adnabod ac enwi planhigion gan ddefnyddio eu henwau botanegol

## Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sydd yn adnabod ac yn enwi planhigion gan ddefnyddio eu henwau botanegol.

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sy'n gyfrifol am weithio gyda phlanhigion, naill ai mewn amgylchedd tyfu neu fanwerthu.

Mae'n rhaid i chi wneud eich gwaith mewn ffordd fydd yn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd naturiol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. lleoli a defnyddio ffynonellau gwybodaeth cywir i adnabod ac enwi planhigion yn gywir gan ddefnyddio eu henwau botanegol
2. defnyddio'r system ddeuenwol i ddiffinio'r termau a ddefnyddir yn gywir wrth adnabod planhigion e.e. teulu, genws, rhywogaeth, cyltifar, amrywiaeth a hybrid
3. defnyddio nodweddion planhigion i gynorthwyo adnabod (yn cynnwys defnydd, cynefin, anatomeg a morffoleg)
4. adnabod rhywogaethau anymledol, tramor a rhywogaethau planhigion wedi eu diogelu a gweithredu yn unol â hynny
5. trin y planhigion mewn ffordd sy'n lleihau niwed
6. sicrhau bod y fformat cywir yn cael ei ddefnyddio wrth ysgrifennu enwau botanegol yn unol â Chôd Rhyngwladol Cyfundrefn Enwau
7. sicrhau bod labeli a chofnodion eraill yn cael eu cwblhau'n gywir
8. gwneud eich gwaith yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, gofynion asesu risg, codau ymarfer a pholisïau sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. diben a phwysigrwydd dosbarthu planhigion gan ddefnyddio eu henwau botanegol
2. y derminoleg a ddefnyddir i adnabod a dosbarthu planhigion ac yn y gyfundrefn enwau e.e. teulu, genws, rhywogaethau, cyltifar, amrywiaeth a hybrid
3. ystyr enwau botanegol disgrifiadol e.e. 'nana' a' 'pendula'
4. nodweddion planhigion a sut gellir cynorthwyo eu hadnabod
5. ffynonellau cyfeirio perthnasol e.e. Canfyddwr Planhigion, Swyddfa Amrywiaeth Planhigion Cymunedol (CPVO)
6. rhywogaethau anymledol, tramor, ymledol ac wedi eu diogelu a pha gamau i'w cymryd pan gânt eu canfod
7. yr arferion gwaith diogel ar gyfer trin planhigion
8. y gofynion a'r cyfyngiadau yn ymwneud â Phatentau Planhigion a Hawliau Tyfwyr Planhigion, sefydliadau deiliaid trwydded ac arolygiadau Hawliau Tyfwyr Planhigion
9. pwysigrwydd defnyddio'r fformat cywir wrth ysgrifennu enwau botanegol
10. systemau perthnasol cofnodi a labelu planhigion
11. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch, codau ymarfer a pholisïau sefydliadol perthnasol

## Cwmpas/Ystod